

Gorffennaf 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Canllaw i Gyllid Cyhoeddus Cymru



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â  
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Mark Jeffs, Anwen Worthy a Verity Winn o dan arweinyddiaeth Matthew Mortlock gyda mewnbwn oddi wrth staff ar draws Swyddfa Archwilio Cymru.

**Huw Vaughan Thomas**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Heol y Gadeirlan**  
**Caerdydd**  
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys

	Cyflwyniad	4
1.	Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hariannu	7
	Tirlun gwasanaethau cyhoeddus Cymru	7
	O le daw'r arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru	10
	Y grant bloc: fformiwla Barnett a'r ffactor anghenion newydd	12
	Trethi	16
	Benthyca	22
	Cynhyrchu incwm	25
	Ffynonellau cyllid eraill	27
2.	Sut y caiff cyllidebau eu pennu ar hyn o bryd yng Nghymru	28
	Sut mae Llywodraeth Cymru yn pennu ei chyllidebau	28
	Pennu cyllidebau mewn llywodraeth leol	32
	Pennu cyllidebau o fewn y GIG	36
	Materion allweddol i gyrff cyhoeddus wrth bennu cyllidebau	39
3.	Fframweithiau allweddol er mwyn mesur ac adrodd ar effeithiau cyllid cyhoeddus yng Nghymru	43
	Fframweithiau ar gyfer mesur ac adrodd ar berfformiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus	45
	Mesur ac adrodd ar berfformiad Llywodraeth Cymru a'r cyrff a ariennir ganddi	48
	Mesur ac adrodd ar berfformiad llywodraeth leol	49
	Mesur ac adrodd ar berfformiad y GIG	51

# Cyflwyniad

- 1 Gall yr ieithwedd a ddefnyddir wrth drafod cyllid cyhoeddus, a'r dull o'i gyflwyno, fod yn gymhleth. Fodd bynnag, er mwyn i gymdeithas ddemocrataidd allu gweithredu mae'n hanfodol i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr allu deall a chraffu ar benderfyniadau ynghylch gwariant cyhoeddus. Mae'r Canllaw hwn yn rhoi crynodeb o'r trefniadau ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru.
- 2 Lluniwyd y Canllaw hwn gennym i'r rhai sydd yn ymwneud â chraffu ar wasanaethau cyhoeddus. Mae hynny'n cynnwys gwleidyddion etholedig sydd yn eistedd ar bwyllgorau craffu, aelodau annibynnol ar fyrddau a phwyllgorau cyhoeddus yn ogystal â'r gymuned ehangach, ee academyddion, sefydliadau cymdeithas sifil a'r cyfryngau.
- 3 Ceir tair rhan i'r Canllaw:
  - **Yn Rhan 1**, nodir y prif ffynonellau cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n disgrifio'r gwahanol fathau o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; sut mae fformiwla Barnett yn gweithio; effaith pwerau newydd i godi trethi yn ogystal â threthi lleol sydd wedi'u hen sefydlu; a ffynonellau eraill allweddol o incwm, fel ffioedd a thaliadau.
  - **Yn Rhan 2**, disgrifir y prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyllidebau ar draws y prif gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Edrychir hefyd ar rai o'r ffactorau allweddol y bydd cyrff cyhoeddus yn eu hystyried wrth bennu eu cynlluniau ariannol.
  - **Yn Rhan 3**, nodir y fframweithiau allweddol ar gyfer mesur ac adrodd ar effeithiau gwariant cyhoeddus – pa allbynnau a chanlyniadau y mae cyrff cyhoeddus yn bwriadu eu sicrhau yn sgil eu buddsoddiad.
- 4 Ceir llawer o ganllawiau ar arfer da eisoes ym maes cynllunio ariannol, pennu cyllidebau, craffu ac adrodd<sup>1</sup>. Rydym wedi defnyddio'r canllawiau hynny a'n gwaith ein hunain wrth archwilio cyllid cyhoeddus ledled Cymru i ddisgrifio materion allweddol y dylai'r rhai hynny sy'n ymwneud â chraffu ar gyllid cyhoeddus eu cadw mewn cof wrth ystyried cynlluniau gwariant (gweler bocs isod). Mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y rhain ymhlith y meysydd allweddol lle mae angen cryfhau'r trefniadau craffu, yn enwedig yn sgil yr angen i fabwysiadu agwedd ehangach a mwy hirdymor yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1 Er enghraifft: Academi Arweinyddiaeth Leol Cymru, **Craffu ar Gyllid, Llyfr Gwaith i Gynghorwyr**, 2011; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus: **Raising the Stakes, Financial Scrutiny in Challenging Times – A Guide for Welsh Local Authorities**, 2014, Grant Thornton.

## Rhai materion allweddol i'w hystyried wrth graffu ar gyllid cyhoeddus



**Cyfrifoldeb ac atebolrwydd:** a yw'r maes polisi wedi'i ddatganoli a faint o ddewis a geir ynghylch gwariant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rhai hynny ohonoch a allai fod yn adrodd ar gyd-destun y gwahaniaethau rhwng patrymau gwariant yng Nghymru a gweddill y DU, a rhwng gwahanol ardaloedd o fewn Cymru.



**Risgiau a chyfleoedd yn gysylltiedig ag incwm:** yn enwedig y risgiau a'r chyfleoedd sy'n gysylltiedig â rhagdybiaethau ynghylch incwm fel derbyniadau treth, ffioedd, grantiau ac incwm arall, a beth yw'r cynlluniau wrth gefn os gwelir bod rhagdybiaethau'n rhy optimistaidd (neu fel arall).



**Tueddiadau dros amser:** sut mae llinellau cyllideb wedi newid dros amryw o flynyddoedd, gan gynnwys newidiadau 'mewn termau real' ac unrhyw newidiadau yn y modd yr adroddir ar y gyllideb sy'n golygu y byddai angen addasu cyn gallu cymharu dros gyfnod o amser. Gall cymharu tueddiadau yn rhannau eraill o'r DU neu mewn cyrff eraill tebyg yng Nghymru hefyd fod yn ffordd ddefnyddiol o archwilio a chraffu ar flaenoriaethau ariannu.



**Eglurder ynghylch 'arbedion':** gellir defnyddio'r term arbedion i olygu arbedion effeithlonrwydd (cael yr un peth am lai o arian i bob pwrpas) a thoriadau i wasanaethau. Os bydd arbedion yn golygu gostwng lefelau gwasanaeth, mae'n bwysig cyfleu hynny'n glir a nodi canlyniadau ac effeithiau'r penderfyniadau hynny ar ddefnyddwyr gwasanaeth ac ar wasanaethau cyhoeddus eraill, y gallai fod angen iddynt lenwi unrhyw fylchau.



**Cyllidebu ar gyfer y tymor hir:** a oes cysylltiad clir rhwng cynlluniau cyllidebol ac amcanestyniadau ar gyfer galw a newidiadau yn y dyfodol, fel newid demograffig, technolegau newydd, y newid yn yr hinsawdd, tueddiadau cymdeithasol ac economaidd ac asesiadau hirdymor o effaith penderfyniadau ariannu.



**Cynlluniau integredig:** a oes cysylltiadau clir rhwng cynlluniau gwariant a dyheadau a gofynion cynllunio allweddol eraill, fel blaenoriaethau strategol lleol a chenedlaethol, cyfrifoldebau cyfreithiol gan gynnwys y rhai a geir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chynlluniau i drawsnewid gwasanaethau.



**Galluogi cydweithredu:** a yw'n glir sut mae'r gyllideb yn cyd-fynd â'r adnoddau ehangach sydd ar gael i ymdrin â phroblem neilltuol, a sut y gellir alinio a chyfuno cyllidebau er mwyn cael y budd mwyaf i'r cyhoedd o bob un.



**Cynnwys y cyhoedd:** a yw'r cyhoedd wedi cael ei gynnwys yn y gwaith o bennu blaenoriaethau'r gyllideb, beth yw dyfnder yr ymgysylltu hwnnw, ac a yw'r cyllidebau'n rhoi ystyriaeth amlwg i'r bwriad i symud tuag at 'gydgynhyrchu' i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.



**Cysylltiadau rhwng cynlluniau gwariant a'r canlyniadau a fwriedir:** a yw'n glir pa fanteision (allbynnau, canlyniadau neu unrhyw ddisgrifyddion eraill) a ddisgwylir yn sgil y cyllid, ac a oes cysylltiad clir rhwng cynigion gwariant a thueddiadau mewn data canlyniadau a pherfformiad, er enghraifft, i dargedu meysydd sy'n destun pryder.

# Sut mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cael eu hariannu

- 1.1 Yn y rhan hon o'r canllaw, edrychir ar y ffynonellau ariannu allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn benodol, mae'n rhoi crynodeb o'r sefyllfa o ran:
- a Tirlun gwasanaethau cyhoeddus Cymru
  - b Prif ffynonellau ariannu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus datganoledig
    - Y grant bloc a fformiwla Barnett
    - Trethi Cymru
    - Benthyciad
    - Cynhyrchu incwm
    - Arall, gan gynnwys cyllid yr UE a Bargaen y Ddinas

## Tirlun gwasanaethau cyhoeddus Cymru

- 1.2 Mae tirlun gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn amrywiol. Mae rhai rhannau o wasanaethau cyhoeddus wedi'u datganoli yng Nghymru. Hynny yw, maent yn perthyn i'r meysydd polisi y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdanynt. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gyfrifol am rai meysydd polisi allweddol yng Nghymru.<sup>2</sup> Mae ystod y pwerau datganoledig wedi parhau i ehangu ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau yn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau sylweddol o hyd rhwng graddau cymharol y pwerau a ddatganolwyd i dair gweinyddiaeth ddatganoledig yn y DU.
- 1.3 Oherwydd natur datganoli yng Nghymru, mae'n anodd rhoi rhestr bendant o'r holl feysydd gwasanaeth sydd wedi'u datganoli neu heb eu datganoli. Yn **Nangosyn 1** dangosir yn fras y prif feysydd gwasanaeth y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd. Ceir rhai meysydd polisi allweddol, yn benodol datblygu economaidd, lle mae'r pwerau cyffredinol wedi'u datganoli ond materion pwysig wedi'u cadw'n ôl o dan reolaeth Llywodraeth y DU (er enghraifft, y polisi cyllidol ac ariannol, rheoleiddio a'r gwasanaethau ariannol). Mewn rhai meysydd fel trafnidiaeth awyr, trenau a llongau, mae gan Lywodraeth Cymru y grym i ddarparu cyllid i gefnogi gwasanaethau, ond nid oes ganddi bwerau deddfu. Ceir hefyd lawer o feysydd, er enghraifft, labelu bwyd a rheoleiddio meddyginiaethau, lle pennir y fframwaith cyfreithiol cyffredinol ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae trafodaeth barhaus yn cael ei chynnal rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ynghylch beth fydd yn digwydd i'r cyfrifoldeb dros y meysydd hynny ar ôl Brexit.

2 Mae gan Gymru fodel 'cadw pwerau'. O dan y model hwn caiff pwerau cyffredinol eu datganoli i Gymru, ac eithrio'r rhai a nodir yn bwerau a 'gedwir' gan Lywodraeth y DU. Ceir rhestr lawn o'r pwerau a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**.

## Dangosyn 1: prif feysydd cyfrifoldeb

Cymru'n bennaf	Y DU yn bennaf	Meysydd lle ceir gorgyffwrdd sylweddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y GIG a gofal cymdeithasol</li> <li>• Amaethyddiaeth (gan gynnwys garddwriaeth, pysgota, lles anifeiliaid)</li> <li>• Chwaraeon a diwylliant</li> <li>• Addysg (ysgolion, addysg bellach, prifysgolion)</li> <li>• Llywodraeth Leol</li> <li>• Twristiaeth</li> <li>• Y Gymraeg</li> <li>• Amddiffynfeydd dŵr a llifogydd</li> <li>• Cynllunio gwlad a thref</li> <li>• Tai (ac eithrio budd-daliadau tai)</li> <li>• Amgylchedd naturiol Cymru</li> <li>• Bwyd</li> <li>• Cynhyrchu ynni (hyd at 350 megawat)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nawdd Cymdeithasol, gan gynnwys budd-daliadau diweithdra, budd-daliadau anabledd, budd-daliadau tai a phensiynau</li> <li>• Gwasanaethau'r heddlu</li> <li>• Y llysoedd a chyfiawnder</li> <li>• Amddiffyn</li> <li>• Cynhyrchu ynni (dros 350 megawat)</li> <li>• Materion tramor</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu economaidd</li> <li>• Trafnidiaeth a phriffyrdd</li> </ul>

1.4 Yn **Nangosyn 2** rhestrir y prif gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Fodd bynnag, nid cyrff cyhoeddus yn unig sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd cyrff cyhoeddus weithiau'n defnyddio cyrff o'r sector gwirfoddol/dielw a chwmnïau preifat i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus<sup>3</sup>. Byddant fel arfer yn ariannu'r cyrff hyn drwy grantiau neu gontractau. Ym [mhapur trafod mis Chwefror 2017](#) gan yr Archwilydd Cyffredinol ar lywodraethu gwasanaethau a ariennir yn cyhoeddus ac a ddarperir yn anuniongyrchol yn rhoi trosolwg o amrywiaeth y trefniadau darparu gwasanaeth yng Nghymru.

3 Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau mawr fel prifysgolion a cholegau addysg bellach.



## Dangosyn 2: y prif gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru<sup>4</sup>

### Prif Gyrrff Cyhoeddus Datganoledig Yng Nghymru

- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth Leol
  - 22 o brif awdurdodau lleol (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol)
  - 735 o gynghorau tref a chymuned
  - 3 awdurdod tân ac achub
  - 3 awdurdod parc cenedlaethol
- 7 bwrdd iechyd lleol, 3 o ymddiriedolaethau'r GIG ac 1 awdurdod iechyd arbennig
- Cyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru
  - Amgueddfa Cymru
  - Cyngor Celfyddydau Cymru
  - Gofal Cymdeithasol Cymru
  - Cyfoeth Naturiol Cymru
  - Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
  - Llyfrgell Genedlaethol Cymru
  - Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
  - Chwaraeon Cymru
  - Cymwysterau Cymru
- Comisiynwyr a chyrrff craffu
  - Swyddfa Archwilio Cymru
  - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
  - Comisiynydd Plant
  - Comisiynydd Pobl Hŷn
  - Comisiynydd y Gymraeg
  - Estyn
  - Arolygiaeth Gofal Cymru
  - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Yr Adran Anweinidogol
  - Awdurdod Refeniw Cymru

<sup>4</sup> Mae cofrestr o bob corff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## O le daw'r arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru

- 1.5 Caiff pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, boed hwnnw wedi'i ddatganoli ai peidio, ei ariannu drwy gyfuniad o dreth, benthyca a chynhyrchu incwm (er enghraifft, ffioedd am wasanaethau a gweithgarwch masnachol). Yn **Nangosyn 3** gwelir bod cyfran helaeth o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau wedi'u datganoli yn 2016-17 wedi dod oddi wrth Lywodraeth y DU drwy'r grant bloc. Fodd bynnag, mae'r tirlun ariannu yn troi'n fwyfwy soffistigedig gyda Chymru yn derbyn pwerau a chyfrifoldebau cynyddol dros gasglu ei refeniw treth ei hun. Gan hynny, bydd y darlun ar gyfer 2018-19 ac ar ôl hynny yn wahanol iawn (**paragraff 1.14**).

Dangosyn 3: prif ffynonellau cyllid ar gyfer gwasanaethau datganoledig yn 2016-17



\*Mae'r benthyciadau yn 2016-17 yn seiliedig ar ffigurau benthyciadau cyfalaf llywodraeth leol.


\*\* Mae ffigur Cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar ffigur cyfartalog cylch ariannu cyfredol 2014-2020.

\*\*\* Mae'r ffigur cynhyrchu incwm yn seiliedig ar incwm gwasanaethau llywodraeth leol (ac eithrio'r heddlu), incwm allanol cyrff y GIG, a chyrrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r ffigur gros.

## Y grant bloc: fformiwla Barnett a'r ffactor anghenion newydd

- 1.6 Nid yw Llywodraeth y DU yn gwneud unrhyw benderfyniadau uniongyrchol ynghylch faint o arian i'w ddyrannu i Gymru ar gyfer gwasanaethau datganoledig. Mae a wnelo penderfyniadau Llywodraeth y DU a'i hadrannau ei hun, sy'n cynnwys gwariant yn Lloegr a gwariant annatganoledig yn rhannau eraill y DU. Mae'r penderfyniadau hynny'n cael effaith awtomatig ar y grant bloc a roddir i Gymru drwy fformiwla Barnett.
- 1.7 Mae'r fformiwla yn seiliedig ar newidiadau blynyddol. Mae'n penderfynu faint yn fwy (neu'n llai) o arian y bydd Cymru yn ei dderbyn drwy'r grant bloc ym mhob blwyddyn o'r cyfnod adolygu gwariant. Mae'r 'llinell sylfaen' ar gyfer y newidiadau hyn yn deillio o'r grant bloc yn y flwyddyn cyn y cyfnod adolygu gwariant. Mae fformiwla Barnett wedyn yn trosi'r newidiadau yng nghyllidebau adrannol Llywodraeth y DU i swm a gaiff ei ychwanegu at y grantiau bloc i'r cyrff datganoledig (neu ei dynnu ohonynt). O'i chymhwyso i Gymru, mae fformiwla Barnett yn gofyn tri chwestiwn syml:
- beth fu'r newid i gyllideb Adran y DU?
  - pa ganran o'r maes polisi y mae Adran y DU yn gyfrifol amdano sydd wedi cael ei datganoli?
  - beth yw poblogaeth Cymru o'i chymharu â Lloegr?
- 1.8 Yn **Nangosyn 4** gwelir sut y byddai'r fformiwla yn gweithio'n ymarferol pe bai Llywodraeth y DU yn cynyddu cyllideb Adran Iechyd y DU i wario £500 miliwn yn fwy ar y GIG yn Lloegr.

### Dangosyn 4: enghraifft o Fformiwla Barnett ar waith (heb gynnwys y 'ffactor anghenion')



- 1.9 Bydd Llywodraeth y DU yn cynnal y cyfrifiad hwn ar draws ei holl adrannau er mwyn creu ffigur cyffredinol net. Cyn 2018-19, dyma lle byddai'r cyfrifiad yn dod i ben. Byddai'r newid net yn cael ei ychwanegu at (neu ei ddidynnu o) grant bloc y flwyddyn flaenorol, er mwyn creu'r grant bloc ar gyfer y flwyddyn honno.
- 1.10 Fodd bynnag, mae Fframwaith Cyllid 2017 a gytunwyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn cyflwyno 'ffactor anghenion' er mwyn ymddrin â dau bryder sy'n bodoli ers tro:
- a nad oedd fformiwla Barnett yn adlewyrchu'r lefelau uwch o angen yng Nghymru. bod poblogaeth Cymru yn hŷn, yn dlotach, yn waelach ac yn fwy gwasgaredig na phoblogaeth Lloegr. O ganlyniad i hynny, ceir mwy o angen am arian a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn 2010, nododd Comisiwn Holtham fod angen rhwng £1.14 a £1.17 am wasanaethau datganoledig yng Nghymru am bob £1 a gaiff ei wario ar wasanaethau yn Lloegr.
  - b 'cydgyfeirio': wrth gynyddu cyllidebau Lloegr un o effeithiau'r fformiwla yw bod gwariant yng Nghymru yn cael ei wasgu fesul pen o'r boblogaeth tuag at yr un lefel â Lloegr. Wrth i gyllidebau yn Lloegr ostwng ar y llaw arall, ceir tuedd i ymwahanu, gyda'r gwariant fesul pen yng Nghymru'n gostwng yn arafach i raddau cymesur nag yn Lloegr.
- 1.11 Nod y 'ffactor anghenion' yw sicrhau bod Cymru bob tro yn derbyn o leiaf 115% o gyllid fesul pen o'r boblogaeth am wasanaethau wedi'u datganoli, o gymharu â Lloegr. Mae Cymru yn derbyn tua 120% o gyllid fesul pen ar hyn o bryd (**Dangosyn 5**)<sup>5</sup>. Hynny yw, am bob £1 a gaiff ei wario yn Lloegr, bydd Cymru yn derbyn £1.20 am wasanaethau datganoledig cyfatebol. Ers datganoli, mae Cymru wedi derbyn dros 115% bob blwyddyn ar wahân i 2008-209 a 2009-10.

5 Ni chaiff y ffigurau sy'n cymharu gwariant datganoledig o amgylch y DU eu cyhoeddi fel mater o drefn. Mae ffigurau yn y Fframwaith Cyllid yn ei gwneud hi'n bosibl i gymharu â Lloegr, ond ni ellir eu defnyddio i gymharu â rhannau eraill y DU.

Dangosyn 5: cyllid fesul pen i Gymru drwy fformiwla Barnett o gymharu â Lloegr



Ffynhonnell: Fframwaith Cyllid

1.12 Mae'r ffactor anghenion yn golygu lluosu'r newid mewn cyllid yn sgil fformiwla Barnett ar sail canran benodol. Gan fod Cymru ar hyn o bryd yn derbyn dros 115%, mae'r ffactor anghenion yn cael ei gyflwyno'n raddol. 105% fydd y ffigur i ddechrau. Bydd hyn yn weithredol nes i'r lefelau ariannu gydgyfeirio'n raddol ar 115%. Bryd hynny, bydd y ffactor anghenion yn newid i 115%. Mae'n anodd amcangyfrif faint o amser y bydd hi'n cymryd i'r ffigurau gydgyfarfod. Caiff y ffactor anghenion ychwanegol ei gymhwyso i gynnydd mewn gwariant o gymharu â llinell sylfaen 2017-18. Hyd ddiwedd y cyfnod Adolygu Gwariant cyfredol o leiaf (2019), ni fydd toriadau mewn gwariant sy'n lleihau lefelau ariannu yn is na llinell sylfaen 2017-18 yn cael eu lluosogi â'r ffactor anghenion. **Yn Nangosyn 6** gwelir sut y caiff y fformiwla anghenion ei chyfuno â fformiwla Barnett i greu'r grant bloc ar gyfer 2018-19.

**Dangosyn 6: cyfuno fformiwla Barnett a'r ffactor anghenion i greu'r grant bloc.**



\*hyd 2017, nid yw'r ffactor anghenion ond yn berthnasol os yw fformiwla Barnett yn creu cynnydd net i'r grant bloc o gymharu â llinell sylfaen 2017-18.

1.13 Mae fformiwla Barnett a'r ffactor anghenion hefyd yn berthnasol i benderfyniadau gan Lywodraeth y DU i gyflwyno cynnydd (neu doriadau) gwariant untro yn Lloegr, ar wahân i ddigwyddiadau adolygu gwariant. Er enghraifft, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu dyrannu cyllid ychwanegol i'r GIG yn Lloegr er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y flwyddyn, bydd swm – a bennir ar sail fformiwla Barnett a'r fformiwla anghenion – yn cael ei ddyrannu i Lywodraeth Cymru. Os yw'r newid yn ymwneud yn benodol â rhaglen neilltuol, ni chaiff y ffactorau cymaroldeb ar lefel adrannol eu cymhwyso. Mae'r cymaroldeb naill ai'n 100% neu'n 0%, yn dibynnu pa raglen gan Lywodraeth y DU y mae hyn yn effeithio arni. Bydd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU yn arwain at 'ganlyniadau' i Gymru.

## Trethi

### Trethi Cymru

- 1.14 Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 gan Ddeddf Cymru 2014 er mwyn rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu ynghylch treth a thrafodion, gan gynnwys buddiant mewn tir (gan ddisodli treth dir treth stamp Llywodraeth y DU) a threth ar waredu i safleoedd tirlenwi (gan ddisodli treth tirlenwi Llywodraeth y DU). Bydd y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y trethi Cymreig – a elwir yn dreth trafodiadau tir ac yn dreth gwarediadau tirlenwi – yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru, a bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno arnynt drwy broses annibynnol ar wahân a ddefnyddir wedyn yn sail ar gyfer cyllideb flynyddol y Cynulliad. Cafodd y ddwy dreth sydd wedi'u datganoli i Gymru eu cyflwyno ar 1 Ebrill 2018, ac maent yn cael eu gweinyddu a'u casglu gan Awdurdod Refeniw Cymru sydd newydd ei sefydlu<sup>6</sup>.
- 1.15 Mae'r pŵer i bennu cyfraddau treth incwm hefyd wedi'i ddatganoli'n rhannol i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Cymru 2014, a disgwylir y bydd hynny'n cael ei weithredu o fis Ebrill 2019.<sup>7</sup> Bydd hyn yn golygu gostyngiad o 10c y bunt yng nghyfraddau cyfredol y DU ar gyfer pob band o dreth incwm i drethdalwyr yng Nghymru.<sup>8</sup> Yn amodol ar gytundeb y Cynulliad Cenedlaethol, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu Cyfraddau Treth Incwm Gymreig (CTIG) ar gyfer pob band, a fydd yn cael ei hychwanegu at gyfraddau gostyngol y DU.<sup>9</sup> Bydd y CTIG yn cael ei hasesu a'i chasglu gan CaThEM (fel y gwneir ar hyn o bryd), a'r refeniw yn cael ei dalu i Drysorlys EM i Gronfa Gyfunol Cymru.

6 Ceir mwy o fanylion am y paratodau ar gyfer y pwerau codi treth newydd yn ein hadroddiadau, Datganoli Cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratodau ar gyfer gweithredu.

7 Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am drethu cynilion ac incwm difidend, a hefyd am bennu'r lwfans personol, band y gyfradd uwch a band y gyfradd ychwanegol. Bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn parhau i gasglu'r dreth incwm, gan gynnwys cyfradd Cymru.

8 Ceir diffiniad o drethdalwr Cymreig yn Rhan 4A o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, fel y cafodd ei hychwanegu yn sgil Deddf Cymru 2014.

9 [Cwestiynau Cyffredin ynghylch Cyfraddau Treth Incwm Cymru](#)



1.16 Bydd Llywodraeth y DU yn addasu'r grant bloc a dderbynnir gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn adlewyrchu refeniw'r dreth a ddaw yn uniongyrchol i Gymru. Ar gyfer 2018-19 a'r blynyddoedd dilynol, bydd hyn yn adlewyrchu'r refeniw a gesglir o dreth stamp y dreth dir, ac o'r dreth tirlenwi yn 2017-18, a'r cynnydd yn y trethi hyn yn rhannau eraill o'r DU wedi hynny. Bydd y dull cytunedig o gyfrifo'r gostyngiad yn cynnwys cyfrifiad ar wahân ar gyfer pob treth.<sup>10</sup> Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ragolygon ar gyfer trethi datganoledig yng Nghymru (**Dangosyn 7**). Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu y bydd trethi datganoledig yn cyfrannu tua 14% o gyllid Llywodraeth Cymru erbyn 2019-20. Bydd y ffigur hwn yn cynyddu i 21% o gynnwys Ardrethi Annomestig (**paragraff 1.20**).

**Dangosyn 7: incwm rhagamcanol yn sgil trethi datganoledig**

	£ miliwn						
	Alldro			Rhagolwg			
	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Treth Incwm Rhannol Ddatganoledig	1,952	2,006	2,053	2,099	2,165	2,232	2,317
Treth Trafodiadau Tir	209	258	264	282	302	322	346
Treth Gwarediadau Tirlenwi	32	27	27	23	21	20	18
Ardoll Agregau*	39	35	37	36	37	37	37
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,232</b>	<b>2,326</b>	<b>2,381</b>	<b>2,440</b>	<b>2,525</b>	<b>2,611</b>	<b>2,718</b>

\* Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu datganoli'r Ardoll Agregau, er bod hyn yn dibynnu ar gasgliad heriau cyfreithiol parhaus a'r amseriad yn ansicr.

Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, **Rhagolygon treth a gwariant datganoledig Mawrth 2018**. Mae'r celloedd tywyll yn cynnwys trethi heb eu datganoli.

10 Am ragor o wybodaeth, gweler Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Datganoli Cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratodau ar gyfer gweithredu**, Rhagfyr 2017.

1.17 Mae Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynigion i Lywodraeth y DU i ddatblygu trethi newydd mewn meysydd lle mae cyfrifoldebau wedi'u datganoli. Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, a dau dŷ'r Senedd gytuno i'r cynigion hyn. Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ystyried rhestr fer a oedd yn cynnwys pedwar syniad am drethi: treth tir gwag; ardoll gofal cymdeithasol; treth ar ddeunydd plastig untro; a threth twristiaeth. Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynnig treth tir gwag i Lywodraeth y DU, ac y byddai'n parhau i archwilio'r posibilrwydd a'r opsiynau ar gyfer y tri syniad arall.

### Trethi Lleol: Y Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig

1.18 Y ddwy brif 'dreth leol' yw'r Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig (a elwir weithiau yn Ardrethi Busnes). Codir y Dreth Gyngor ar gartrefi, ac Ardrethi Annomestig ar fathau eraill o eiddo, gan gynnwys eiddo a seilwaith y mae busnesau, cyrff cyhoeddus a sefydliadau dielw yn berchen arnynt neu'n eu meddiannu. Mae'n bosib y bydd yn rhaid talu'r naill dreth a'r llall ar gyfer eiddo a ddefnyddir yn rhannol fel cartref ac yn rhannol i ddibenion busnes.<sup>11</sup>

### Y Dreth Gyngor

1.19 Awdurdodau lleol sy'n pennu, yn casglu ac yn gorfodi'r Dreth Gyngor. Mae'r dreth yn seiliedig ar fandiau prisio. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn dyrannu pob annedd i fand yn seiliedig ar werthoedd eiddo sy'n dyddio o 2003. Mae cyfanswm y Dreth Gyngor a gesglir ym mhob ardal yn cynnwys swm a bennir gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddur ardal, a swm a bennir gan y Cyngor Tref a Chymuned, os oes Cyngor o'r fath yn yr ardal. Ceir naw band prisio (A i I), gyda swm y Dreth Gyngor yn amrywio'n gymesur rhwng y bandiau mewn perthynas ag eiddo Band D, fel y gwelir yn **Nangosyn 8**. Er enghraifft, os bydd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D yn £1,000, y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band G fydd £1,667 (15/9 x £1,000). Mae rhai mathau o anheddau wedi'u heithrio, er enghraifft eiddo nad yw ond yn cynnwys myfyrwyr. Bydd rhai aelwydydd yn gymwys i dderbyn gostyngiadau a disgowntiau, er enghraifft, aelwydydd lle na cheir ond un oedolyn atebol.

<sup>11</sup> Er enghraifft, os bydd perchennog busnes yn byw mewn fflat uwch ben y busnes. Ceir rhagor o wybodaeth ar [dudalen we gov.uk](http://www.gov.uk) am y Dreth Gyngor ac Ardrethi Busnes: [busnesau yn y cartref](#).

## Dangosyn 8: fformiwla ar gyfer cyfrifo cyfraddau aelwydydd yn seiliedig ar fandiau'r Dreth Gyngor

Band A	Band B	Band C	Band D	Band E	Band F	Band G	Band H	Band I
6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Ardrethi Annomestig

- 1.20 Mae Llywodraeth Cymru'n rheoli gweithrediad Ardrethi Annomestig, ond awdurdodau lleol sydd fel arfer yn casglu'r ardrethi hynny. Mae Ardrethi Annomestig yn seiliedig ar Werth Ardrethol yr eiddo. Asiantaeth y Swyddfa Briso, sydd yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, sydd yn prisio eiddo annomestig ac sydd yn pennu gwerthoedd ardrethol. Mae Llywodraeth Cymru'n pennu'r lluosydd a ddefnyddir yn sail i benderfynu ar y cynnydd mewn ardrethi o'r naill flwyddyn i'r nesaf.<sup>12</sup>
- 1.21 Ceir nifer o ryddhadau ac esemptiadau er mwyn helpu rhai talwyr i dalu eu bil Ardrethi Annomestig. Mae'r rhain yn cynnwys rhyddhadau i fusnesau bach ac elusennau ac ar gyfer eiddo gwag.<sup>13</sup> Bydd Llywodraeth Cymru'n gorfodi rhai mathau o ryddhad ac yn ariannu'r holl ryddhad hwnnw. Caiff awdurdodau lleol hefyd ychwanegu at ryddhadau gorfodol, neu ddyfarnu rhyddhad yn ôl eu doethineb. Yn yr holl achosion hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu cyfran o'r rhyddhad, a'r awdurdod lleol yn ariannu'r gweddill. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu cynlluniau rhyddhad dros dro wedi'u targedu at sectorau neilltuol. Ariennir y rhain yn llawn gan Lywodraeth Cymru.
- 1.22 Bydd awdurdodau lleol yn talu'r ardrethi a gesglir, ar ôl didynnu lwfansau penodol a chostau a ganiateir, i Gronfa Ardrethi Annomestig ganolog Llywodraeth Cymru. Er bod y gronfa yn rhan o gyllideb Llywodraeth Cymru, fe'i hailddosberthir ymhlith awdurdodau unedol a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu yn rhan o'r setliadau blynyddol i lywodraeth leol ([paragraff 2.10](#)). Yn 2016-17, cyfrannodd awdurdodau lleol £941 miliwn o Ardrethi Annomestig i'r gronfa. Yn ogystal â hynny, cyfrannwyd £79 miliwn arall mewn refeniw o'r rhestr ganolog, a gesglir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.<sup>14</sup>

<sup>12</sup> Ceir mwy o wybodaeth ar [dudalen we Llywodraeth Cymru am Ardrethi Annomestig \(busnes\)](#).

<sup>13</sup> Ceir mwy o wybodaeth am y rhyddhadau hyn, a'r mathau eraill o ryddhad sydd ar gael, ar wefan [Busnes Cymru](#).

<sup>14</sup> Casgliad data alldro ardrethi annomestig, Llywodraeth Cymru.

1.23 Drwy setliad llywodraeth leol 2016-17, dyrannwyd £928 miliwn o Ardrethi Annomestig i awdurdodau unedol, a £49 miliwn i gomisiynwyr yr heddlu a throseddu.<sup>15</sup> Roedd y setliadau'n cynrychioli tua 6% o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17. Mae Llywodraeth Cymru yn ailddosbarthu'r cyllid yn seiliedig ar anghenion lleol (gweler [paragraff 2.12](#)). Yn [Nangosyn 9](#) gwelir bod rhai awdurdodau lleol yn gyfranwyr net i'r gronfa genedlaethol, ac eraill yn fuddiolwyr net, ond gall hyn amrywio o'r naill flwyddyn i'r nesaf.

### Dangosyn 9: Ardrethi Annomestig 2016-17

	Ardrethi Annomestig a Gyfrannwyd i'r Gronfa (£'000)	Ardrethi Annomestig wedi'u Hailddosbarthu a Dderbyniwyd (£'000)	Budd Net/ (Cyfraniad) (£'000)
Blaenau Gwent		21,003	8,559
Pen-y-bont ar Ogwr	41,412	42,283	871
Caerffili	35,835	53,184	17,349
Caerdydd	186,465	105,994	(80,471)
Sir Gaerfyrddin	47,160	55,720	8,560
Ceredigion	16,575	23,699	7,124
Conwy	27,812	35,644	7,832
Sir Ddinbych	22,719	28,396	5,677
Sir y Fflint	65,807	45,851	(19,956)
Gwynedd	37,077	37,158	81
Ynys Môn	13,224	21,309	8,085
Merthyr Tudful	16,569	17,560	991
Sir Fynwy	20,075	27,981	7,906

<sup>15</sup> Setliad Llywodraeth Leol Cymru 2016-17.

	Ardrethi Annomestig a Gyfrannwyd i'r Gronfa (£'000)	Ardrethi Annomestig wedi'u Hailddosbarthu a Dderbyniwyd (£'000)	Budd Net/ (Cyfraniad) (£'000)
Castell-nedd Port Talbot	41,039	42,438	1,399
Casnewydd	61,620	42,806	(18,814)
Sir Benfro	50,107	37,316	(12,791)
Powys	25,669	40,525	14,856
Rhondda Cynon Taf	51,167	70,451	19,284
Abertawe	72,215	73,224	1,009
Bro Morgannwg	34,285	37,942	3,657
Torfaen	21,233	27,232	5,999
Wrecsam	40,373	40,435	62
Heddlu Gogledd Cymru	0	10,989	10,989
Heddlu Dyfed- Powys	0	8,277	8,277
Heddlu De Cymru	0	20,521	20,521
Heddlu Gwent	0	9,063	9,063
<b>Cyfanswm</b>	<b>940,882</b>	<b>977,001</b>	<b>36,119</b>

Sylwer: mae cyfanswm yr Ardrethi Annomestig a ailddosbarthwyd, sef £977 miliwn, yn fwy na'r £941 miliwn a gyfrannwyd i'r gronfa gan awdurdodau lleol, gan fod Llywodraeth Cymru yn casglu peth o'r refeniw yn uniongyrchol. Ceir gwahaniaethau hefyd o ran amseriad y setliadau a'r casglu – bydd y setliadau'n cael eu dyrannu cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, ond bydd yr ardrethi'n cael eu casglu yn ystod y flwyddyn ariannol.

Ffynhonnell: Casgliad data alldro Setliadau ac Ardrethi Annomestig Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru.

## Benthyca


### Benthyciadau Llywodraeth Cymru

1.24 Mae pwerau benthyca Llywodraeth Cymru wedi newid dros amser (Dangosyn 10):

- O dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gallai Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £500 miliwn i reoli diffygion dros dro yn ei chyllideb.
- Ar ôl uno ag Awdurdod Datblygu Cymru yn 2006, etifeddodd Llywodraeth Cymru hefyd bwerau benthyca cyfyngedig yn sgil Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 i gyflawni ei swyddogaethau economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Pe bai Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei phwerau o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, byddai'r arian wedi cael ei drin fel derbyniad a fyddai'n cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'r Gronfa Gyfunol, heb greu unrhyw adnoddau net ychwanegol i Lywodraeth Cymru.
- Yn sgil Deddf Cymru 2014, diddymwyd y pŵer benthyca o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, gan ymestyn pwerau benthyca Gweinidogion Cymru o dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn weithredol o fis Ionawr 2017. Er mai £500 miliwn yw'r uchafswm benthyca refeniw o hyd,<sup>16</sup> o 1 Ebrill 2018 gellir ei ddefnyddio i lyfnhau unrhyw amrywio mewn derbyniadau treth, hy os ydynt yn is nag a ragwelwyd neu os cyflwynir y derbyniadau hynny'n arafach na'r disgwyl. Yn sgil Deddf Cymru 2014, cafodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd ei diwygio i gynnwys adran 122A oedd yn rhoi pŵer benthyca newydd i Weinidogion Cymru o hyd at £125 miliwn y flwyddyn ar gyfer gwariant cyfalaf, hyd at gyfanswm o £500 miliwn. Cyn i bwerau Deddf Cymru 2014 ddod i rym yn 2017, cytunodd Llywodraeth y DU y gallai Gweinidogion Cymru fenthyca o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 yn benodol er mwyn ariannu gwelliannau i'r M4 yn ne ddwyrain Cymru.
- Diwygiwyd adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan Ddeddf Cymru 2017 i godi terfyn benthyca cyfalaf Gweinidogion Cymru o £500 miliwn i £1 biliwn. Disgwylir i'r terfyn benthyca blynyddol godi o £125 miliwn i £150 miliwn y flwyddyn pan gyflwynir Cyfraddau Treth Incwm Cymru ym mis Ionawr 2019.

16 Ceir terfyn blynyddol o £200 miliwn ar gyfer benthyciadau refeniw. Am fwy o wybodaeth, gweler Llywodraeth EM/Llywodraeth Cymru, **Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru.**

Dangosyn 10: esblygiad pwerau benthycia datganoledig



\*Ar ôl cyflwyno trethi Cymru, bydd modd defnyddio hyn hefyd i reoli amrywiadau mewn refeniw treth.

Ffynhonnell: Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Datganoli Cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratodau ar gyfer gweithredu**, Rhagfyr 2017; Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Pwerau Benthycy ac Ymagweddau Arloesol o ran Cyllid Cyfalaf**, Gorffennaf 2012

## Benthyciadau a chronfeydd llywodraeth leol

- 1.25 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae gan bob awdurdod lleol bŵerau statudol i fenthycu i unrhyw ddiben sydd yn berthnasol i'w swyddogaeth neu er mwyn rheoli ei faterion ariannol mewn modd darbodus. Mae hyn yn golygu y caiff cyrff llywodraeth leol fenthycu i ariannu buddsoddiadau cyfalaf, er enghraifft, buddsoddi i ailwampio adeiladau ysgol neu godi rhai newydd<sup>17</sup>. Caiff awdurdodau lleol hefyd fenthycu i hyrwyddo eu llif arian. Yr awdurdodau lleol eu hunain sydd i benderfynu ynghylch natur ddarbodus benthyciadau, ond byddant yn dilyn codau ymarfer proffesiynol fel **Y Cod Darbodus** a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Gelwir y math hwn o fenthycu fel arfer yn fenthycu darbodus neu ddigymorth.<sup>18</sup> Yn 2016-17, ariannodd awdurdodau lleol Cymru £363 miliwn o wariant cyfalaf drwy fenthyciadau digymorth.
- 1.26 Bydd awdurdodau lleol hefyd yn trefnu benthyciadau a chredyd sydd yn denu cymorth ariannol oddi wrth y llywodraeth ganolog. Gelwir y math hwn o fenthyciad fel arfer yn fenthyciad â chymorth. Yn 2016-17 ariannodd awdurdodau lleol Cymru £104 miliwn o wariant cyfalaf drwy fenthyciadau â chymorth.
- 1.27 Ochr yn ochr â'u pwerau benthycu, mae gan gyrff llywodraeth leol hefyd bwerau i gadw cronfeydd wrth gefn. Gall y rhain fod yn gysylltiedig â phrosiectau penodol, yn gronfeydd a elwir yn gronfeydd wedi'u clustnodi, neu'n sicrwydd rhag gwariant annisgwyl, yn gronfeydd a elwir yn gronfeydd cyffredinol. Mae Cod Cyfrifyddu CIPFA hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu cronfeydd eraill, y mae llawer ohonynt i ddibenion cyfrifyddu yn unig, ac nad oes modd felly eu defnyddio i unrhyw ddibenion eraill. Gelwir y rhain yn gronfeydd annefnyddadwy. Yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2017 ar adroddiadau ariannol llywodraeth leol<sup>19</sup> canfuwyd bod awdurdodau lleol Cymru yn cadw cyfanswm o £1.4 biliwn mewn cronfeydd defnyddadwy, gan gynnwys tua £200 miliwn mewn cronfeydd cyffredinol yn 2016-17.

17 Er enghraifft, Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif**, Mai 2017.

18 Er y gall cyrff llywodraeth leol fenthycu gan fanciau masnachol neu gyhoeddi bondiau corfforaethol, y ffynhonnell bwysicaf ar gyfer benthyciadau yw'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Am ragor o wybodaeth, gweler Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Pwerau Benthycu ac Ymagweddau Arloesol o ran Cyllid Cyfalaf**, Gorffennaf 2012.

19 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Leol 2016-17**, Rhagfyr 2017



## Cynhyrchu incwm

- 1.28 Gall gwasanaethau cyhoeddus Cymru hefyd gynhyrchu incwm drwy eu gweithgarwch eu hunain, er bod y dulliau o wneud hynny'n amrywio'n helaeth rhwng gwahanol sectorau a chyrff. Mae gan awdurdodau lleol bwerau eang i godi tâl am wasanaethau. Serch hynny, mae'r pwerau hyn yn aml yn gymhleth, ac mae cyfyngiadau ar rai meysydd. Mae'r cyfyngiadau hyn yn rheoli a ellir defnyddio taliadau i gynhyrchu gwagedd fydd yn cefnogi gwariant cyffredinol, a ellir eu defnyddio i adennill y costau a achoswyd yn unig, neu a yw awdurdodau wedi'u gwahardd rhag codi tâl. Dyma'r gwahanol fathau o daliadau y caiff awdurdodau lleol eu defnyddio i gynhyrchu incwm:
- a taliadau dewisol, lle nad oes unrhyw uchafswm i'r hyn y gall yr awdurdod ei godi fel tâl, ond mae'n rhaid iddo weithredu'n rhesymol gan osod taliadau i ddibenion a awdurdodwyd drwy'r statud yn unig, er enghraifft, y gwasanaeth hamdden a thaliadau parcio;
  - b taliadau lle na chaiff yr incwm fod yn hwy na'r gost o ddarparu'r gwasanaeth, fel trwyddedau tacsï a ffioedd rheoli adeiladu; a
  - c thaliadau a ragnodir yn genedlaethol, lle nad oes gan awdurdodau lleol ond ychydig o ddewis os o gwbl wrth bennu lefel y taliadau, fel ffioedd trwyddedu eiddo a thaliadau gofal cymdeithasol.
- 1.29 Yn ein hadroddiad y 2016 ar gynhyrchu incwm mewn llywodraeth leol, canfuwyd bod yr ymagweddau at gynhyrchu incwm yn amrywio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn lefelau amrywiol yr incwm a oedd yn cael ei gynhyrchu (o gymharu â chyfanswm eu cyllideb). Canfu'r adroddiad hefyd fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynhyrchu llai o incwm (o gymharu â'u cyllidebau) nag awdurdodau lleol cyfatebol yn Lloegr a'r Alban.

- 1.30 Bydd cyrff y GIG yn cynhyrchu incwm drwy gyrrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac o ffynonellau allanol, ond yn debyg i awdurdodau lleol ceir cyfyngiadau ar y gallu i godi tâl o fewn y GIG. Bydd rhywfaint o incwm yn cael ei gynhyrchu o fewn GIG Cymru, neu oddi wrth y GIG yn Lloegr, gan fod cyrff iechyd yn derbyn cyllid i drin cleifion sydd yn byw mewn ardal bwrdd iechyd wahanol. Gall corff o fewn y GIG gynhyrchu sawl math arall o incwm:
- a cyllid addysg, hyfforddiant ac ymchwil, yn enwedig os oes cysylltiadau rhwng y bwrdd iechyd a phrifysgol;
  - b incwm gan gleifion preifat, cleifion o wledydd tramor a thrwy'r cynllun Adennill Costau Anafiadau<sup>20</sup>;
  - c ffioedd a thaliadau, er enghraifft ffioedd am driniaethau deintyddol;
  - ch incwm elusennol, gan gynnwys cyllid grant a rhoddion ar ffurf arian parod neu asedau;
  - d incwm rhent a gynhyrchir pan fo'r corff yn prydlesu asedau i eraill; a
  - dd thaliadau eraill, gan gynnwys prydau a llety i'r staff, cyfraniadau staff am ddefnydd car, darparu gwasanaethau golchdy a gwasanaethau eraill, a ffioedd corffdy.
- 1.31 O fewn y llywodraeth ganolog, mae natur amrywiol y cyrff yn golygu eu bod yn cynhyrchu incwm drwy amrywiaeth o ddulliau, yn dibynnu ar weithgarwch y corff unigol. Mae hyn yn cynnwys incwm o weithgarwch masnachol. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn incwm yn sgil cynhyrchu ynni adnewyddadwy, ac mae Amgueddfa Cymru yn cynhyrchu incwm o siopau rhoddion a thaliadau parcio. Bydd cyrff eraill, gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn derbyn cyllid grant oddi wrth gyrrff llywodraethol neu anlywodraethol. Ar ben hyn, gall rhai cyrff godi ffioedd am eu gwasanaethau. Er enghraifft, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn codi ffi am gofrestru ar y Gofrestr Gofal Cymdeithasol<sup>21</sup>.

20 Ceir cynllun Adennill Costau Anafiadau'r GIG i adennill costau am anafiadau lle telir iawndal am anaf personol, er enghraifft, i rai a anafwyd mewn damweiniau traffig ar y ffordd. Caiff y costau eu hadennill yn bennaf gan iawndalwyr/yswirwyr trydydd parti, ac maent yn cynnwys costau taith ambiwlans.

21 Cofrestr o bobl sydd wedi dangos eu bod yn addas i weithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy: ddilyn y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol (y Cod) a chanllawiau ymarfer ar gyfer eu rôl; feddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau cywir (gan gynnwys cymwysterau); fod yn gorfforol ac yn feddyliol iach i ymarfer, a meddu hefyd ar gymhwysedd a chymeriad addas.

## Ffynonellau cyllid eraill

- 1.32 Ceir ffynonellau cyllid eraill ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Y ffynhonnell fwyaf fu'r Undeb Ewropeaidd. Y ddwy brif ffynhonnell o gyllid o'r UE yw'r Cronfeydd Strwythurol, gwerth tua £300 miliwn y flwyddyn a chyllid o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, ac iddo hefyd werth o tua £360 miliwn y flwyddyn. Mae Cymru hefyd yn derbyn tua £25 miliwn y flwyddyn drwy raglen ymchwil ac arloesi Horizon 2020. Nid yw'n glir eto beth yn union fydd yn digwydd i gyllid yr UE nac a fydd unrhyw gyllid i gymryd ei le ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu adrodd ar agweddau ar gyllid yr UE yn ddiweddarach eleni.
- 1.33 Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru hefyd yn paratoi cynlluniau i ddefnyddio cyllid o gynlluniau Bargaen y Ddinas a Bargaen Twf. Partneriaethau a arweinir gan awdurdodau lleol sy'n anelu i sicrhau datblygiad economaidd yn y rhanbarth yw Bargaen y Ddinas a Bargaen Twf. Bargaen y Ddinas ar gyfer Rhanbarth Prifddinas Caerdydd oedd y gyntaf i gael ei chymeradwyo. Mae'n cynnwys cyfanswm buddsoddiad o £1.2 biliwn dros 20 mlynedd, gan gynnwys £500 miliwn oddi wrth Lywodraeth y DU, a'r gweddill yn gyllid gan Lywodraeth Cymru, yr UE ac awdurdodau lleol. Mae Bargaen y Ddinas Rhanbarth Bae Abertawe i'w chyllido drwy gyfrwng £241 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, £396 miliwn o rannau eraill o'r sector cyhoeddus a £637 miliwn o'r sector preifat. Mae Bargaen Twf Gogledd Cymru hefyd yn cael ei datblygu, er nad oes cytundeb ynghylch y manylion eto.

# Sut y caiff cyllidebau eu pennu ar hyn o bryd yng Nghymru

- 2.1 Yn y rhan hon o'r canllaw edrychir ar y modd y caiff cyllidebau eu pennu yng Nghymru. Edrychir i ddechrau ar y prif brosesau cyllidebu. Mae'n trafod:
- a Proses gyllidebu Llywodraeth Cymru
  - b Prosesau cyllidebau llywodraeth leol
  - c Prosesau cyllidebau'r GIG

## Sut mae Llywodraeth Cymru'n pennu ei chyllidebau

- 2.2 Mae Llywodraeth Cymru yn pennu ei chyllideb fesul cam. Ar gyfer cyllideb 2018-19, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddull newydd o gyhoeddi'r gyllideb, yn dilyn trafodaeth â phwyllgorau craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn **Nangosyn 11** ceir trosolwg lefel uchel o'r broses o adrodd a diweddarau'r gyllideb drwy gydol y flwyddyn<sup>22</sup>. O 2018-19 ymlaen, mae proses y gyllideb yn fwy cymhleth yn sgil y pwerau newydd i godi treth. Mae'r rhain yn cyflwyno elfen o ansicrwydd, oherwydd gallai'r symiau gwirioneddol a godir fod yn fwy, neu'n llai, na'r hyn a amcangyfrifir.

**Dangosyn 11: proses ac amserlen Llywodraeth Cymru i graffu ar y gyllideb a'i chymeradwyo**



<sup>22</sup> Achos amseru penderfyniadau gwariant DU, gall fod yr amserlen hon yn ddarostyngedig i newidiadau yn y flwyddyn y mae Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad gwario ynddi.

- 2.3 Proses gyllidebu 2018-19 oedd y tro cyntaf i Lywodraeth Cymru gyhoeddi 'cyllideb amlinellol'. Mae'r gyllideb amlinellol hon a gyflwynir yn fuan ym mis Hydref yn rhoi trosolwg lefel uchel o gynlluniau gwariant. Ochr yn ochr â'r gyllideb amlinellol, mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei chynlluniau a'i rhagolygon o ran incwm treth. Ar gyfer cyllideb 2018-19, roedd y papurau ategol hefyd yn cynnwys adroddiadau manwl gan y Prif Economegydd ac adolygiad annibynnol o'r rhagamcanion gan economegwyr academiaidd. O ran y gyllideb amlinello ar gyfer 2018-19, gofynnodd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru am sylwadau a thystiolaeth gan y cyhoedd a chan sefydliadau yn gysylltiedig â'r cynigion amlinellol.
- 2.4 Yn hwyr ym mis Hydref, bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r gyllideb ddrafft fanwl. Yn y ddogfen honno, ceir mwy o fanylion am gynigion y gyllideb. Mae'n cynnwys cynlluniau gwariant manwl ar raglenni unigol a llinellau cyllideb manwl. Ym **Mocs 1** ceir cyngor ar sut i ddeall y cyllidebau manwl.
- 2.5 Bydd y Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau pwnc eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu ar gynlluniau cyllideb Llywodraeth Cymru. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn goruchwyllo'r gyllideb a'r broses yn strategol, a bydd yn rhaid iddo lunio adroddiad. Bydd y pwyllgorau pwnc<sup>23</sup> yn craffu'n fanwl ar y cynigion cyllidebol sydd yn berthnasol i'r meysydd a drafodir gan y pwyllgor dan sylw. Bydd pob pwyllgor yn gallu cynhyrchu ei adroddiad craffu ei hun ar y gyllideb. Mae'r adroddiadau ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

23 Yr hyn a olygir wrth gyfeirio at 'bwyllgorau pwnc' yw'r pwyllgorau sydd yn trafod meysydd penodol ym mholisi Llywodraeth Cymru: [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#); [Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig](#); [Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a'r Cyfathrebu](#); [Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau](#); [Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau](#); a'r [Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon](#).

## Bocs 1: darllen dogfen gyllidebol Llywodraeth Cymru

### **Beth yw'r dogfennau cyllidebol?**

Tablau llinell gwariant y gyllideb Mae'r rhain yn nodi cynlluniau manwl Gweinidogion Cymru o ran y gyllideb, ac yn dangos newidiadau o'r naill flwyddyn i'r nesaf.

Naratif ynghylch y gyllideb. Mae'r esboniad yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth i esbonio penderfyniadau ynghylch y gyllideb, canlyniad asesiadau effaith a blaenoriaethau.

Cynnig y gyllideb – Dyma'r cynnig ffurfiol y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio yn ei gylch er mwyn cymeradwyo'r gyllideb. Yn ogystal â chyllideb Llywodraeth Cymru, mae'n cynnwys cyllid i Gomisiwn y Cynulliad, Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

### **Mathau o gyllid**

Mae adnoddau (a elwir hefyd yn refeniw a 'gwariant o ddydd i ddydd') yn talu'r gost o gynnal a phrynu nwyddau a gwasanaethau; costau staff; grantiau cyfredol; rhent; a chostau cynnal a chadw. Y mae hefyd yn cynnwys elw neu golled yn sgil gwerthu asedau; dibrisiant; a rhai diffygiannau.

Mae Cyfalaf (a elwir hefyd yn 'wariant buddsoddi') yn cynnwys prynu a gwaredu asedau a gwaith graddfa fawr i wella asedau; grantiau cyfalaf (hy, grantiau i brynu neu wella asedau) a benthyciadau. Mae hefyd yn cynnwys trafodion ariannol, sef benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti mewn cynlluniau sector preifat yn hytrach na buddsoddi mewn prosiectau seilwaith traddodiadol.

Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cynnwys gwariant y mae'n fwy anodd ei reoli a'i ragweld. Mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer benthyciadau myfyrwyr. Bydd Llywodraeth Cymru'n cytuno ar Wariant a Reolir yn Flynyddol bob blwyddyn â Thrysorlys EM. Gall Llywodraeth Cymru dynnu mwy o Wariant a Reolir yn Flynyddol i lawr o Drysorlys EM os oes angen, ond ni chaiff ond wario'r arian hwnnw ar y rhaglen benodol y mae wedi'i glustnodi ar ei chyfer. Bydd Trysorlys EM yn adennill unrhyw Wariant a Reolir yn Flynyddol nad yw wedi'i wario. Bydd Trysorlys EM yn ysgwyddo'r risg ariannol am Wariant a Reolir yn Flynyddol.

### **Cadwch lygad am y canlynol:**

Cynnydd neu ostyngiad rhwng y naill flwyddyn a'r nesaf: gallai'r rhain fod yn 'enwol' (neu yn nhermau arian parod), neu 'mewn termau real' sydd yn golygu eu bod yn cynnwys ystyriaeth o chwyddiant.

Newidiadau i gyfrifoldebau adrannol: a allai greu'r argraff bod llinell o'r gyllideb wedi cynyddu neu ostwng, ond yr hyn y mae'n adlewyrchu mewn gwirionedd yw bod cyfrifoldeb wedi symud o'r naill adran, neu o'r naill llinell gyllidebol i'r llall. Manylir ar y rhain fel arfer yn y ddogfen esboniadol sydd yn cyd-fynd â'r gyllideb.

- 2.6 Bydd Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi ei Chyllideb Derfynol yn y mis Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol dan sylw. Mae'r Gyllideb Derfynol yn cynnwys unrhyw newidiadau yn dilyn gwaith craffu. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pleidleisio ar y Gyllideb Derfynol a hefyd ar y gyllideb i Gomisiwn y Cynulliad, Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus<sup>24</sup>.
- 2.7 Yn ystod y flwyddyn ariannol ei hun, bydd Llywodraeth Cymru'n diweddarau'r gyllideb drwy gyhoeddi Cyllidebau Atodol. Bydd yn diweddarau'r ffigurau am amrywiaeth o resymau. Mae'r newidiadau mwyaf yn tueddu i ymddangos yn yr ail Gyllideb Atodol ym mis Chwefror. Mae a wnelo rhai o'r prif newidiadau â ffurfioli penderfyniadau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi, gan gynnwys:
- a adlewyrchu unrhyw gynnydd mewn cyllid yn sgil penderfyniadau cyllidebol yn Lloegr;
  - b dyrannu cyllid a oedd wedi'i gadw yn y gronfa ganolog i Adrannau;
  - c dyrannu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn oherwydd pwysau ar gostau, ee, o fewn y GIG;
  - ch ailddosbarthu arian a danwariwyd yn y naill raglen neu adran i raglen neu adran arall; a
  - d dyrannu cyllid o'r Gronfa Cymru (cyllid heb ei ddefnyddio o'r blynyddoedd cynt).
- 2.8 Bydd Cyrff a Ariennir gan Lywodraeth Cymru yn pennu eu cyllidebau blynyddol manwl yn seiliedig ar y gyllid refeniw a chyfalaf craidd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr ag unrhyw incwm arall y maent yn disgwyl ei gynhyrchu. Bydd byrddau'r sefydliadau unigol yn cytuno ar y cyllidebau.

<sup>24</sup> Mae'r tri sefydliad uchod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru felly nid oes gan Weinidogion Cymru ran yn y gwaith o bennu eu cyllideb.

## Pennu cyllidebau mewn llywodraeth leol


2.9 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol fantoli'r gyllideb, ond ni cheir diffiniad clir mewn deddfwriaeth o'r hyn y mae 'mantoli' yn ei olygu yn ymarferol<sup>25</sup>. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn cynghori y dylai cyllidebau llywodraeth leol fod yn seiliedig ar gynlluniau ariannol cadarn sy'n dangos sut y bydd incwm yn gyfwerth â gwariant dros y tymor byr a'r tymor canolig<sup>26</sup>. Bydd pob awdurdod lleol yn creu cynlluniau ariannol tymor canolig sydd fel arfer yn cynnwys cyfnod o dair i bum mlynedd. Defnyddir y cynlluniau ariannol tymor canolig hyn i lywio cyllidebau blynyddol, cynlluniau gwario a lefelau'r dreth gyngor. Bydd ymagweddau awdurdodau lleol yn amrywio rhywfaint wrth bennu cyllidebau blynyddol, ond mae'r llinellau amser yn **Nangosyn 12** yn nodweddiadol.

25 Mae'r gyfraith wedi'i chynnwys mewn sawl deddf, gan gynnwys Deddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Deddfau Cyllid Llywodraeth Leol o 1988 a 1992.

26 Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, Balancing Local Authority Budgets, April 2016.



Dangosyn 12: proses ac amserlen nodweddiadol ar gyfer cymeradwyo cynlluniau cyllidebol mewn awdurdodau lleol



Ffynhonnell: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

- 2.10 Wrth bennu cyllideb gytbwys, nododd awdurdodau lleol eu cynlluniau gwariant yn erbyn lefelau hysbys a thebygol o incwm. Y brif ffynhonnell incwm yw'r Grant Cynnal Refeniw (**Bocs 2**) a grantiau eraill penodol gan Lywodraeth Cymru. Dwy brif ffynhonnell incwm arall yw ardrethi annomestig (**paragraff 1.20**) ac incwm o ffioedd, taliadau a ffynonellau eraill (**paragraffau 1.28 i 1.33**). Y ffynhonnell olaf o gyllid yw'r dreth gyngor a osodir yn lleol (**paragraff 1.19**). Y Dreth Gyngor yw'r ffynhonnell fwyaf o gyllid refeniw ond un i gynghorau yng Nghymru. Bob blwyddyn, bydd yn rhaid i gynghorau gyfrifo eu 'gofyniad cyllidebol' ar gyfer y Dreth Gyngor yn seiliedig ar:
- a wariant a gynllunnir i gyflenwi gwasanaethau;
  - b cyfraniadau a gynllunnir i'r cronfeydd ar gyfer gwariant yn y dyfodol;
  - c cyfraniadau o'r cronfeydd i ar gyfer gwariant cyfredol; ac
  - ch incwm disgwylidig o ffioedd a thaliadau, grantiau, gan gynnwys y Grant Cynnal Refeniw, ac ardrethi annomestig.

## Bocs 2: Grant Cynnal Refeniw

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu ei Grant Cynnal Refeniw i bob awdurdod lleol. Caiff awdurdodau lleol ddewis sut i wario'r cyllid hwn, yn unol ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

Bob blwyddyn, bydd Gweinidogion Cymru yn llunio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol a'i gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru<sup>27</sup>. Mae'r adroddiad yn nodi faint o arian y bydd pob cyngor yn ei dderbyn drwy'r Grant Cynnal Refeniw ac yn sgil ailddosbarthu ardrethi annomestig<sup>28</sup>. Gelwir yr adroddiad a'i ddogfennau ategol yn Setliad Llywodraeth Leol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Setliad Llywodraeth Leol dros dro ym mis Hydref ar ôl cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Yna bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Setliad terfynol ym mis Rhagfyr ar ôl ymgynghori â'r cyngorau.

Defnyddir 'Asesiad o Wariant Safonol' yn sail i benderfynu ar y swm y bydd pob awdurdod lleol yn ei dderbyn yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw. Pwrpas yr asesiadau yw adlewyrchu natur amrywiol y gost o gyflenwi gwasanaethau yn yr holl ardaloedd, oherwydd eu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol gwahanol. Maent yn cynnwys symiau tybiannol a ddyrannwyd i feysydd gwasanaeth unigol, er nad oes unrhyw rwymedigaeth na disgwyliad i gynghorau wario yn unol â'r dyraniadau hyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori amrywiaeth o grantiau penodol yn y Grant Cynnal Refeniw. Oherwydd y newidiadau hyn bob blwyddyn mae angen gwneud addasiadau cymhleth i gymharu gwerth y Grant Cynnal Refeniw dros amser.

- 2.11 Mae'n rhaid i'r cyngor cyfan bennu cyllideb flynyddol a lefel y dreth gyngor, yn seiliedig ar gyngor ac argymhelliad y cabinet neu'r bwrdd gweithredol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol bennu eu cyllidebau cyffredinol a'u lefelau treth gyngor erbyn 11 Mawrth.
- 2.12 Yn ychwanegol at y gyllideb refeniw a ddisgrifir uchod, bydd awdurdodau lleol hefyd yn paratoi cyllidebau cyfalaf sy'n trafod gwariant cynlluniedig ar asedau hirdymor fel tir, adeiladau a seilwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau cyfalaf penodol i gynghorau yn ogystal â chyllid cyfalaf cyffredinol yn rhan o'r Setliad Llywodraeth Leol. Mae cynghorau'n darparu cyllid ychwanegol drwy fenthyciadau, a chyfraniadau o'u cyllidebau a'u cronfeydd refeniw ([paragraffau 1.25 i 1.27](#)).

<sup>27</sup> O dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

<sup>28</sup> [Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol ar ei gwefan.](#)

## Awdurdodau Tân ac Achub

2.13 Ceir mwyafrif y cyllid ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru drwy osod ardoll ar awdurdodau lleol. Bydd awdurdodau tân ac achub yn ymgynghori ag awdurdodau lleol ynghylch lefel y taliadau ond yn y pen draw caiff yr awdurdodau lleol benderfynu ynghylch taliadau heb dderbyn cymeradwyaeth haen arall o lywodraeth. Yn ôl Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol Llywodraeth Cymru<sup>29</sup> dylai awdurdodau tân ac achub ystyried effaith pwysau ariannu ar awdurdodau lleol a rhoi esboniad trylwyr o'u penderfyniadau i awdurdodau lleol.

## Awdurdodau Parc Cenedlaethol

2.14 Ariennir awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru drwy Grant Parciau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a thrwy godi tâl ar awdurdodau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi terfyn gwariant cymeradwy blynyddol sy'n pennu faint o gyllid y bydd awdurdodau parc cenedlaethol yn ei dderbyn drwy ei Grant Parc Cenedlaethol bob mis Ionawr. Y Grant Parciau Cenedlaethol sydd i gyfrif am 75% o gyllid y parciau cenedlaethol ar gyfer gwariant cymeradwy, a bydd awdurdodau parc cenedlaethol yn codi ardoll ar awdurdodau lleol am y 25% sy'n weddill. Mae Prif Weithredwr yr awdurdod parc cenedlaethol yn gyfrifol am lunio cyllideb flynyddol fanwl a datganiad ar yr ardoll erbyn 15 Chwefror. Mae'n rhaid i awdurdod y parc cenedlaethol gymeradwyo'r gyllideb flynyddol a rhagolygon o'r gyllideb ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

## Pennu cyllidebau o fewn y GIG

2.15 Penderfynir ar gyfanswm cyllideb y GIG drwy broses gyllidebol Llywodraeth Cymru ([paragraffau 2.2 i 2.8](#)). Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r dyraniad i'r GIG wedi cynyddu'n uwch na chwyddiant ac yn gynt na sawl maes arall o fewn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r GIG felly yn derbyn cyfran gynyddol o gyllideb Llywodraeth Cymru. Wrth bennu cyllideb y GIG, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru yn helaeth at waith Ymddiriedolaeth Nuffield yn 2014<sup>30</sup> a'r Sefydliad Iechyd yn 2016<sup>31</sup> sydd yn nodi'r pwysau ar y GIG o ran costau.


<sup>29</sup> Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016, Tachwedd 2015

<sup>30</sup> Ymddiriedolaeth Nuffield, **A Decade of Austerity in Wales? The funding pressures facing the NHS in Wales to 2025/26**, Mehefin 2014.

<sup>31</sup> Y Sefydliad Iechyd, **The Path to Sustainability: Funding projections for the NHS in Wales to 2019/20 and 2030/31**, Hydref 2016.

2.16 O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, y mae dyletswydd statudol ar gyrff y GIG i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod tair blynedd treigl. Un o brif amcanion y Ddeddf oedd helpu gyrff y GIG i ganolbwyntio ar sefydlogrwydd ariannol a chynllunio ar gyfer y tymor hir. Yn ôl y Ddeddf, mae'n ofynnol i gyrff y GIG gyhoeddi Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd, sy'n nodi eu cynlluniau o ran gwasanaethau, y gweithlu a chyllid er mwyn bodloni anghenion y boblogaeth yn eu hardal. Mae'n rhaid i gyrff y GIG ddiweddarau eu cynllun bob blwyddyn, i'w gymeradwyo gan eu byrddau ac, wedi hynny, gan Ysgrifennydd y Cabinet. Yn **Nangosyn 13** gwelir yr amserlen ar gyfer creu'r cynllun. Yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2017 ar weithredu'r Ddeddf<sup>32</sup> canfuwyd nad oedd gan bedwar o'r saith bwrdd iechyd gynllun tair blynedd cytunedig ar waith yn 2016-17. Yn lle hynny, roedd gan y pedwar bwrdd iechyd gynlluniau blwyddyn, ac nid oedd y cyfrifon wedi'u mantoli ar ddiwedd y flwyddyn. Parhaodd y sefyllfa hon yn 2017-18, pan gyflwynwyd cynlluniau blwyddyn o hyd gan bob un o'r pedwar bwrdd iechyd unwaith eto.

**Dangosyn 13: proses ac amserlen ar gyfer cymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig o fewn y GIG**



32 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014**, Gorffennaf 2017.

2.17 Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at fyrddau iechyd cyn dechrau'r flwyddyn ariannol (ym mis Rhagfyr fel arfer) yn nodi beth yw eu dyraniad refeniw blynyddol (**Bocs 3**). Gall Llywodraeth Cymru ychwanegu at y dyraniad refeniw yn ystod y flwyddyn. Ni chaiff dyraniadau cyfalaf Llywodraeth Cymru i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eu cyflwyno ar ffurf llythyr ffurfiol. Fel arfer, bydd dyraniadau cyfalaf yn cynnwys swm dewisol ar gyfer mân waith ac er mwyn gosod cyfarpar newydd. Byddant hefyd yn cynnwys unrhyw ddyraniad o Raglen Gyfalaf Cymru Gyfan ar gyfer prosiectau cyfalaf graddfa fawr sydd wedi'u cymeradwyo. Ceir trefniadau ar wahân ar gyfer y tair o Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn derbyn ei chyllideb craidd yn uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn derbyn y rhan fwyaf o'u cyllid oddi wrth y saith bwrdd iechyd.

### Bocs 3: Dyraniad refeniw'r GIG

Mae'r dyraniad refeniw yn rhoi disgrifiad manwl o'r cyllid cyffredinol a'r lefelau cyllid penodol, er enghraifft, ar gyfer gofal sylfaenol a gwasanaethau eraill. Cyfrifir y dyraniad drwy ddefnyddio cymysgedd o fformiwlâu. Mae'r dyraniad yn dilyn patrymau ariannu o'r gorffennol yn rhannol, a sefydlwyd cyn creu byrddau iechyd lleol integredig yn 2009. Caiff cynnydd blynyddol mewn cyllid ei ddyrannu i fyrddau iechyd unigol drwy ddefnyddio fformiwla sydd, i raddau helaeth, yn seiliedig ar lefelau amddifadedd.

Yn ein hadroddiad yn 2017 ar weithredu Deddf Cyllid y GIG, nodwyd bod y symiau a ddyrennir i bob bwrdd iechyd, fesul pen o'r boblogaeth, yn amrywio i raddau sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru ar ganol adolygu'r dull o ddyrannu cyllid y GIG.

## Materion allweddol i gyrff cyhoeddus wrth bennu cyllidebau

2.18 Wrth bennu cyllidebau, bydd gyrff cyhoeddus yn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau. Mewn cymdeithas ddemocrataidd, mae blaenoriaethau gwleidyddol y blaid neu'r pleidiau sy'n llywodraethu, fel y'u nodir yn eu manifesto, yn ffactor allweddol wrth benderfynu pa feysydd gwariant cyhoeddus y dylid rhoi'r flaenoriaeth iddynt. Ceir hefyd ffactorau mwy technegol o ran cyflawni dyletswyddau statudol yn gysylltiedig â rhai gwasanaethau ac o ran sicrhau bod adnoddau yn cyd-fynd ag anghenion a'r galw. Hefyd, yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig<sup>33</sup> gymhwyso'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' i'w holl waith, gan gynnwys cynllunio eu cyllid a phennu cyllidebau. Mae'r Ddeddf yn disgrifio pum ffordd o weithio er mwyn gwireddu'r egwyddor datblygu cynaliadwy<sup>34</sup>:

- a Y Tymor Hir
- b Atal
- c Integreiddio
- ch Cydlafurio
- d Cynnwys

2.19 Mae symud i gynllunio'r gyllideb ar gyfer y **tymor hir** yn gryn her i gyrff cyhoeddus. Er bod cynlluniau llawer ohonynt yn gwella ar gyfer y tymor canolig, dros dair blynedd, ceir ffocws o hyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus ar y cylch cyllidebu blynyddol. Mae llawer o gyrff yn dibynnu ar broses gyllidebu Llywodraeth Cymru i gadarnhau eu cyllid. Dros y blynyddoedd diwethaf, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ei hun ond cyhoeddi cyllidebau blynyddol, ond ar gyfer 2018-19 cyhoeddodd ffigurau dangosol ar gyfer cyllidebau refeniw yn 2019-20 a hyd 2020-21 ar gyfer cyfalaf.

2.20 Y sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ar ôl holl etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol cyntaf ar gyfer 2017 ym mis Mai 2017. Ar sail yr adroddiad hwnnw a'n dadansoddiad ni ein hunain, mae **Bocs 4** yn nodi rhai o'r prif faterion y mae angen i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth iddynt wrth ymestyn eu gorwelion cynllunio i'r tymor hwy. Yn flaenorol, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi amlygu gwendidau yn yr ystyriaeth a roddwyd i dueddiadau'r dyfodol mewn asesiadau llesiant.<sup>35</sup>

<sup>33</sup> Mae'r Ddeddf yn berthnasol i 44 o gyrff a enwir, er bod Llywodraeth Cymru yn annog gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i goleddu egwyddorion y Ddeddf.

<sup>34</sup> Ceir rhagor o wybodaeth yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru, [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(2015\): Yr Hanfodion](#).

<sup>35</sup> Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, [Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory, 2017](#).

#### Bocs 4: rhai o'r prif faterion hirdymor o ran gwasanaethau cyhoeddus Cymru

**Newidiadau demograffig:** dros y 30 mlynedd nesaf, rhagwelir y bydd cyfansoddiad demograffig poblogaeth Cymru yn newid yn sylweddol. Dengys data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol y bydd cyfran y boblogaeth dros 80 yn cynyddu o 6% yn 2018 i 11% yn 2048, ac y bydd cyfran y boblogaeth 20-59 yn gostwng o 51% yn 2018 i 46% yn 2048. Mae'r ffaith bod pobl yn byw am gyfnod hirach yn ddatblygiad cadarnhaol iawn. Ond mae hynny'n golygu y bydd natur y galw am rai gwasanaethau cyhoeddus yn newid. Yn ogystal â hynny, gallai'r gostyngiad yn y boblogaeth oed gwaith amharu ar y sylfaen drethi yng Nghymru.

**Cyni:** Ar hyn o bryd mae cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau anodd mewn cyfnod o gyni ariannol nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen. Yn **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015**, pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod angen i gyrff cyhoeddus, wrth wneud penderfyniadau ynghylch toriadau a blaenoriaethau gwariant, gael dealltwriaeth glir o'r ffordd y gallai eu penderfyniadau effeithio ar unigolion a chymunedau yn y tymor hir. Yn neilltuol, mae angen iddynt anelu i wneud penderfyniadau sydd yn achosi 'y lleiaf o niwed' i ganlyniadau unigolion a chymunedau yn y tymor hwy.

**Tlodi:** Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn rhagfynegi cynnydd o 3% yn y gyfradd tlodi gymharol yng Nghymru o 2013-2015 i 2019-2021, a chynnydd o 10% yn y gyfradd gymharol ar gyfer tlodi plant rhwng 2013-2015 a 2019-2021.

**Brexit:** Bydd effaith penderfyniad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn bellgyrhaeddol, ond ni wyddys rhyw lawer ynghylch maint yr effeithiau hyn. Ar adeg drafftio'r Canllaw hwn, ceir ansicrwydd mawr ynghylch a fydd y DU yn ymadael mewn modd trefnus, gyda Chytundeb Ymadael a chyfnod trosglwyddo cytunedig, neu'n ymadael mewn ffordd sy'n fwy anodd ei rhagweld, heb unrhyw gytundeb. Ceir ansicrwydd ynghylch canlyniadau hirdymor y naill senario ne'r llall, a bydd angen i'r holl gyrff gyhoeddus fod yn effro ac ymaddasu'n gyflym i'r risgiau a'r cyfleoedd.

**Datblygiadau technolegol:** Mae technoleg yn cynnig ffyrdd newydd o ryngweithio â'r cyhoedd ac o wella gwasanaethau, a gall hefyd leihau costau. Fodd bynnag, mae angen i gyrff cyhoeddus daro cydbwysedd rhwng y cyfleoedd a ddaw yn sgil newidiadau technolegol a'r angen i sicrhau nad ydynt yn eithrio rhai sydd yn llai cyffyrddus wrth ddefnyddio technoleg digidol, neu'n llai galluog ar y dechnoleg honno.



**NY Newid yn yr Hinsawdd:** Ceir consensws gwyddonol fod tymheredd byd-eang yn codi, a bod gweithgarwch dynol yn cyfrannu'n sylweddol at hynny. Ceir heriau sylweddol yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, a hynny o ran atal ac ymaddasu i'r effeithiau, er enghraifft, ar seilwaith ffisegol a digidol allweddol. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau carbon net yn 2050 o leiaf 80% yn is na'r llinell sylfaen a bennwyd mewn deddfwriaeth. Cyflawnir hyn drwy osod targedau dros dro ar gyfer 2020, 2030 a 2040 a chyllidebau carbon pum mlyneddol hyd 2050.

2.21 Bydd angen i gyrff cyhoeddus hefyd sicrhau bod eu cyllidebau a'u hadnoddau yn cyd-fynd â'u hamcanion a'u cynlluniau strategol ar gyfer trawsnewid y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Fel y nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015**, ceir gweledigaeth am wasanaethau mwy cydweithredol a di-dor sydd o natur ataliol ac yn seiliedig ar egwyddorion 'cydgynhyrchu'<sup>36</sup>. **Ym Mocs 5** nodir rhai o'r prif faterion y bydd angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth gynllunio eu cyllidebau i gyd-fynd â modelau gwasanaeth cyhoeddus newydd. Rydym wedi gosod y prif faterion hyn yng nghyd-destun y pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

<sup>36</sup> Mae cydgynhyrchu yn seiliedig ar yr egwyddor o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i raddau helaethach. Bydd hyn yn cael ei grynhoi'n aml fel 'gwneud rhywbeth ar y cyd â rhywun yn hytrach na gwneud rhywbeth i rywun'.

## Bocs 5: rhai ffactorau allweddol i'w hystyried wrth gynllunio cyllidebau yn sgil gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

**Y Tymor Hir:** Ym **Mharagraffau 2.18 i 2.21** ac **ym Mocs 4** nodir rhai o'r prif heriau y bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn eu wynebu yn y tymor hir.

**Atal:** Mae llawer o gyrff y sector cyhoeddus eisoes yn buddsoddi mewn cynlluniau ataliol, ond mae'n bosib bod cyfleoedd i sefydliadau adolygu eu gwariant er mwyn canfod cyfleoedd i fuddsoddi mwy ymlaen llaw i atal problemau rhag troi'n fwy difrifol, ac osgoi'r costau mwy a geir yn y tymor hir. Mae angen i gyrff cyhoeddus greu'r gofod ariannol i fuddsoddi mwy o arian mewn ymagweddau ataliol, gan reoli'r pwysau uniongyrchol ar wasanaethau rheng flaen yn y tymor byr hefyd.

**Cydlafurio:** Ceir cydnabyddiaeth gynyddol nad yw bywydau pobl yn ffitio'n rhwydd i ffiniau sefydliadau a gwasanaethau sy'n gweithredu mewn seilo. Mae anghenion a dyheadau pobl o ran iechyd ac o safbwynt cymdeithasol ac economaidd yn gymhleth ac yn amrywio yn eang. Er mwyn bodloni'r anghenion hynny, mae angen i gyrff cyhoeddus gydweithio ar draws ffiniau. Drwy wneud hynny, bydd cyrff cyhoeddus yn sicrhau bod cyllidebau a threfniadau ariannu yn cefnogi cydweithio effeithiol, yn hytrach na'u bod yn amharu ar hynny, fel sy'n digwydd weithiau. Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol er mwyn galluogi ymagwedd gwirioneddol gydgyssylltiedig at ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

**Integreiddio:** Mae cyrff cyhoeddus yn wynebu gofynion a phwysau lluosog wrth gynllunio eu cyllidebau. Un o'r prif heriau yw creu darlun ystyrlon ac integredig o gyllid, gwasanaethau a'u heffeithiau. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal ystod o asesiadau o anghenion yn rhan o'u gwaith cynllunio. Mae'n rhaid iddynt hefyd gynnal asesiadau effaith penodol, gan gynnwys asesiadau effaith cydraddoldeb, yn gysylltiedig â'u penderfyniadau. Er mwyn osgoi ymagwedd dameidiog, mae angen i gyrff cyhoeddus integreiddio eu gwaith cynllunio ariannol â'u cynlluniau ehangach i fodloni anghenion y boblogaeth a sicrhau bod penderfyniadau yn creu'r budd mwyaf posibl i unigolion a chymunedau.

**Cynnwys:** Ochr yn ochr â goblygiadau cynnwys defnyddwyr gwasanaeth i raddau helaethach o ran darpariaeth gwasanaeth, ceir goblygiadau o ran adnoddau. Er mwyn cydgynhyrchu bydd angen cydnabod yr asedau cadarnhaol y gall unigolion a chymunedau eu cynnig i wasanaethau cyhoeddus. Gall y rhain fod yn enfawr o'u cymharu â'r adnoddau ariannol prin sydd ar gael i'r sector cyhoeddus. Un o'r heriau i'r gwasanaethau cyhoeddus yw deall a gweithio gyda'r adnoddau hyn ochr yn ochr â'r adnoddau ariannol sydd fel arfer wedi'u cynnwys mewn cyllidebau.

# Fframweithiau allweddol er mwyn mesur ac adrodd ar effeithiau cyllid cyhoeddus yng Nghymru

- 3.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, edrychir ar y fframweithiau amrywiol sydd ar waith i fesur ac adrodd ar effeithiau cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Yn benodol:
- a Fframweithiau ar gyfer mesur ac adrodd ar effeithiau ar draws gwasanaethau cyhoeddus
  - b Fframweithiau ar gyfer mesur ac adrodd ar berfformiad Llywodraeth Cymru a'r cyrff a ariennir ganddi
  - c Fframweithiau ar gyfer mesur ac adrodd ar berfformiad llywodraeth leol
  - ch Fframweithiau ar gyfer mesur ac adrodd ar berfformiad y GIG
- 3.2 Mae hi'n gyfnod arbennig o ddiddorol o safbwynt adrodd ar effeithiau gwasanaethau cyhoeddus. Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn addasu eu fframweithiau mewn ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac i wahanol ffyrdd o weithio ac o ddeall gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys symud oddi wrth fesur ac adrodd ar yr hyn y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei gyflawni, a faint y maent yn ei gyflawni, i ganolbwyntio ar 'ganlyniadau'-pa effaith y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei chael. Yn **Nangosyn 14** gwelir y fframweithiau trosfwaol lefel uchel ar gyfer mesur perfformiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru<sup>37</sup>.

<sup>37</sup> Er mai trafod cyrff cyhoeddus datganoledig a wneir yn yr adroddiad hwn yn bennaf, ceir hefyd fframweithiau perfformiad sydd yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, a chyrrff gwirfoddol a phreifat sydd yn derbyn cyllid gan yr UE.

Dangosyn 14: y prif fframweithiau perfformiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus datganoledig

**Fframweithiau Trawsbynciol**

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

Mesurau Canlyniad Iechyd y Cyhoedd

Mesurau Canlyniad Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol

**Llywodraeth  
Cymru**

Mesurau'r  
Rhaglen  
Lywodraethu  
a'r Strategaeth  
Genedlaethol  
(i'w datblygu)

**GIG Cymru**

Fframwaith  
Cyflawni'r GIG

**Mesurau  
Atebolrwydd  
Cyhoeddus**

Adroddiad  
Perfformiad

Blynyddol y  
Gwasanaethau  
Cymdeithasol

Fframwaith  
perfformiad  
cynllunio

3.3 Yn ychwanegol at y fframweithiau a'r trefniadau i adrodd ar berfformiad yn lleol ac yn genedlaethol, bydd ystod o sefydliadau hefyd yn craffu'n allanol ar gyrff cyhoeddus:

- ceir craffu gwleidyddol drwy bwyllgorau craffu cenedlaethol a llywodraeth leol, a thrwy'r cyfryngau.
- bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyfrifon cyrff cyhoeddus ac yn adolygu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus er mwyn canfod a ydynt yn cynnig gwerth am arian. Y mae hefyd yn archwilio'r graddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r amcanion hynny.
- bydd yr arolygiaethau'n adolygu ansawdd gwasanaethau: Bydd Estyn yn arolygu gwasanaethau addysg, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau gofal iechyd, ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- mae gan y Comisiynwyr – y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd bwerau statudol i archwilio ansawdd darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

## Fframweithiau ar gyfer mesur ac adrodd ar berfformiad ar draws y gwasanaethau cyhoeddus

### Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.4 Yn **Rhan 2** o'r adroddiad hwn, disgrifiwyd y modd y bwriedir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol lywio penderfyniadau'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch cyllid. O dan yr un Ddeddf, mae'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus hynny adrodd ar eu cynnydd wrth gyflawni eu hamcanion.

- 3.5 Yn ôl y Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru bennu dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 46 o ddangosyddion cenedlaethol<sup>38</sup>. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Llesiant Blynyddol i ddisgrifio cynnydd yn erbyn y nodau llesiant ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hadroddiad Llesiant blynyddol cyntaf yn 2017<sup>39</sup>. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gyd-gyfraniad holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac nid yw'n cynnwys sylwadau ynghylch perfformiad neu gyfraniad sefydliadau unigol. Y mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru hefyd i bennu cerrig milltir er mwyn helpu i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu ei cherrig milltir cenedlaethol ar hyn o bryd.
- 3.6 Bob blwyddyn, bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus unigol gyhoeddiad adroddiad blynyddol sy'n dangos eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn manylu ar strwythur na chynnwys yr adroddiadau blynyddol. Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ei hadroddiad **Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn**. Ynghyd â sylwadau ynghylch y cynnydd a wnaed ym mlwyddyn gyntaf y Ddeddf, mae'r adroddiad yn nodi disgwyliadau'r Comisiynydd ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn adroddiad blynyddol pob corff.
- 3.7 Cafodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu o dan y Ddeddf. Mae awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, awdurdodau tân ac achub a Chyfoeth Naturiol Cymru yn aelodau statudol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gall y Byrddau hefyd wahodd sefydliadau eraill perthnasol o'r sector cyhoeddus i ymuno â hwy. Mae'n rhaid i bob Bwrdd gyhoeddi amcanion llesiant a'r camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny mewn Cynllun Llesiant Lleol. Mae'n rhaid i'r Byrddau gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd ac anfon copïau at Weinidogion Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a phwyllgor craffu yr awdurdod lleol perthnasol. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r camau y mae'r Bwrdd wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni ei amcanion, a dylai gynnwys asesiad o gynnydd yn gysylltiedig â'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol.

38 Ceir rhagor o wybodaeth yn [Sut mae mesur cynnydd cenedl: Dangosyddion cenedlaethol i Gymru](#) ar wefan Llywodraeth Cymru.

39 Llywodraeth Cymru, **Adroddiad Llesiant Blynyddol**, 2017.

## Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru

3.8 Lanswyd y Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru<sup>40</sup> yn 2016 er mwyn mesur a monitro iechyd poblogaeth Cymru. Pwrpas y Fframwaith yw tanategu'r 46 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol drwy ddarparu cyfres fanylach o ddangosyddion sy'n trafod iechyd a llesiant. Mae data ar y dangosyddion ar gael yn [Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru](#)<sup>41</sup>. Nid offeryn rheoli perfformiad yw'r Fframwaith, ond bydd data o'i ddangosyddion yn dangos cynnydd Cymru tuag at ganlyniadau iechyd y cyhoedd. Bwriad Llywodraeth Cymru yw bod holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yn defnyddio'r Fframwaith fel offeryn er mwyn helpu i lunio polisi lle gall eu gwaith ddylanwadu ar iechyd a llesiant. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu'r Fframwaith bob pum mlynedd ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd Cymru fel cenedl yn erbyn y Fframwaith.

## Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol

3.9 Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i weinidogion Cymru gyhoeddi Datganiad Llesiant. Nodir yn y Datganiad y canlyniadau llesiant y dylai pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a'r gofalwyr sydd angen cefnogaeth, eu disgwyl. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru hefyd fanylu ar y dull o fesur cynnydd tuag at gyflawni'r Datganiad Llesiant. Cyhoeddwyd y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru yn 2016<sup>42</sup> yn nodi'r canlyniadau llesiant cenedlaethol a dangosyddion i fesur cynnydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar ddangosyddion perfformiad ar ei gwefan<sup>43</sup>. Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol mewn adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiad yn disgrifio cyfraniad y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei gyfanrwydd, ac nid yw'n cynnwys sylwadau ynghylch perfformiad sefydliadau unigol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu fframwaith mesur perfformiad ar wahân i awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<sup>44</sup>.

40 Llywodraeth Cymru, [Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd](#), Mawrth 2016.

41 [Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd](#)

42 Llywodraeth Cymru, [Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol](#), 2016

43 Gwefan Llywodraeth Cymru, [Fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth](#), Ionawr 2018

44 Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalen we Llywodraeth Cymru ar [Fframwaith Mesur Perfformiad i awdurdodau lleol](#)

## Mesur ac adrodd ar berfformiad Llywodraeth Cymru a'r cyrff a ariennir ganddi

- 3.10 Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni rôl ddeublyg o ran adrodd ar effeithiau. Fel y corff sy'n arwain y broses o lunio polisi yng Nghymru, mae'n gyfrifol am gyflawni amcanion cenedlaethol, er nad yw'n cyflenwi'r gwasanaethau yn uniongyrchol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn adrodd ar ei heffeithiau ei hun fel sefydliad, gan gynnwys y modd y caiff ei rheoli a'i chynnal.
- 3.11 Mae Llywodraeth Cymru yn dal i geisio datrys sut y mae'n bwriadu adrodd ar gyflawniad amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd yn Symud Cymru Ymlaen 2016-21<sup>45</sup> (y 'rhaglen lywodraethu' gyfredol) a'r strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb<sup>46</sup>.
- 3.12 Yn ystod y Cynulliad blaenorol (2011-16), bu Llywodraeth Cymru yn mesur cynnydd yn erbyn ymrwymïadau ei rhaglen lywodraethu, drwy 336 o ddangosyddion canlyniad ac olrhain. Roedd y dangosyddion canlyniad yn mesur cynnydd Cymru fel gwlad a'r dangosyddion olrhain yn mesur cyfraniad Llywodraeth Cymru at gynnydd cenedlaethol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiadau cynnydd blynyddol yn disgrifio'r cynnydd yn erbyn dangosyddion unigol ar ei gwefan<sup>47</sup>. Fodd bynnag, yn rhan o Ffyniant i Bawb, mae Llywodraeth Cymru am droi oddi wrth yr arfer o adrodd ar lu o ddangosyddion unigol ac ar hyn o bryd yn datblygu ei hymagwedd at fonitro ac adrodd ar ei chynnydd ei hun.
- 3.13 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyfrifon yn cynnwys sylwadau oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch ei swyddogaethau corfforaethol, ond nid ydynt yn disgrifio perfformiad ehangach Llywodraeth Cymru.
- 3.14 Mae gan bob corff a ariennir gan Lywodraeth Cymru ei gyfres ei hun o fesurau a thargedau perfformiad, sy'n deillio o'i strategaethau a'i blaenoriaethau a'r blaenoriaethau a nodir yn ei lythyr cylch gorchwyl blynyddol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Bydd pob corff a ariennir yn cyhoeddi adroddiad blynyddol, weithiau wedi'i gyfuno â'i gyfrifon, sy'n disgrifio perfformiad y flwyddyn gynt. Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar wefan pob corff. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ystod o fesurau ar hyn o bryd sy'n anelu i gryfhau effeithiolrwydd a chysondeb ei threfniadau i oruchwyllo'r cyrff a ariennir ganddi.

<sup>45</sup> [Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen 2016-21, 2016](#)

<sup>46</sup> [Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, 2016](#)

<sup>47</sup> [Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu, \(gwefan yr Archifau Cenedlaethol\).](#)



## Mesur ac adrodd ar berfformiad llywodraeth leol

3.15 Yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol, awdurdod parc cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub gyhoeddi amcanion gwella blynyddol ac adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hynny. Mae rhai awdurdodau wedi ymgorffori eu hamcanion llesiant i'w hamcanion gwella tra bo eraill wedi cyhoeddi amcanion llesiant ar wahân. Bydd awdurdodau'n mesur perfformiad yn erbyn gwahanol ddangosyddion perfformiad, a ddisgrifir yn fanylach yn yr adrannau isod.

### Awdurdodau lleol

3.16 Yn 2016, cafodd Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012 ei ddirymu gan Lywodraeth Cymru, gan gael gwared â'r ddyletswydd i awdurdodau lleol gyflwyno data ar ddangosyddion strategol cenedlaethol. Wedi hynny, bu awdurdodau lleol yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer perfformiad lleol yn seiliedig ar fesurau atebolrwydd cyhoeddus. Cadarnhawyd y fframwaith mesur perfformiad newydd yng Nghyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 31 Mawrth 2017. Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar y mesurau newydd, gan gynnwys disgrifiad o'r modd y gallant gyfrannu at y saith nod llesiant<sup>48</sup>. Mae'r cynnydd yn erbyn y mesurau atebolrwydd cyhoeddus ar gael ar wefan Data Cymru (yr Uned Ddata gynt)<sup>49</sup>.

3.17 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cod ymarfer i awdurdodau lleol er mwyn mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Daeth y mesurau perfformiad yn y cod ymarfer i ddisodli'r holl fesurau perfformiad cyfredol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae data ar berfformiad awdurdodau lleol yn erbyn y mesurau perfformiad ar gael ar wefan StatsCymru. Y mae dyletswydd statudol ar Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdod lleol hefyd i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o Fframwaith Adroddiadau Cyngor Blynyddol. Ers 2017, mae'r adroddiad blynyddol yn seiliedig ar dempled cenedlaethol sy'n adlewyrchu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

48 Am ragor o wybodaeth, gweler [Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Data Cymru, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2017-18, Canllawiau i awdurdodau lleol](#).

49 Am ragor o wybodaeth, gweler y [wefan mylocalcouncil](#).

## Awdurdodau cynllunio lleol

- 3.18 Mae gan awdurdodau lleol a'r tri awdurdod parc cenedlaethol rôl fel awdurdodau cynllunio, sy'n golygu eu bod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o benderfyniadau cynllunio yn eu hardal<sup>50</sup>. Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio greu Cynllun Datblygu Lleol 15 mlynedd o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004). Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn sefydlu fframweithiau lleol a ddefnyddir yn sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch datblygu yn y dyfodol, gan gynnwys ceisiadau cynllunio. Mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau cynllunio i baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol i fonitro effeithiolrwydd eu Cynllun.
- 3.19 3Caiff perfformiad awdurdodau cynllunio hefyd ei fesur yn erbyn dangosyddion yn Fframwaith Perfformiad Cynllunio Llywodraeth Cymru. Datblygwyd y Fframwaith mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, ac fe'i mabwysiadwyd yn 2014. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar berfformiad awdurdodau cynllunio ar ei gwefan bob chwarter<sup>51</sup>.

## Awdurdodau parc cenedlaethol

- 3.20 Nodir dyletswyddau statudol y parciau cenedlaethol yn Neddf yr Amgylchedd 1995. Yn ôl y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru gyhoeddi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol<sup>52</sup> bob pum mlynedd. Mae'r Cynllun yn sefydlu gweledigaeth a blaenoriaethau hirdymor ar gyfer holl ardal y parc. Mae'r awdurdodau hefyd yn cyhoeddi adroddiadau a chynlluniau gwella blynyddol, sy'n cynnwys targedau a dangosyddion perfformiad ar gyfer yr awdurdod parc cenedlaethol.

<sup>50</sup> Ac eithrio ceisiadau ynni graddfa fawr, sef prosiectau cynhyrchu ynni dros 50 megawat y bydd gweinidogion Cymru neu Lywodraeth y DU yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch

<sup>51</sup> Am ragor o wybodaeth, gweler [tudalen we Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru](#)

<sup>52</sup> Gofyniad o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995

## Awdurdodau tân ac achub

3.21 Yn ôl Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, mae'n ofynnol i weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol ac adrodd bob dwy flynedd ar y graddau y mae'r awdurdodau tân ac achub wedi gweithredu'n unol â'r Fframwaith. Mae'r Fframwaith yn pennu gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, gan gynnwys dangosyddion perfformiad ar leihau risg, diogelwch cymunedol, ac ymateb effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn llunio adroddiad blynyddol sy'n dangos perfformiad cenedlaethol yn erbyn ei dangosyddion perfformiad<sup>53</sup>.

## Cynghorau tref a chymuned

3.22 Mae cynghorau tref a chymuned yn darparu ystod o wasanaethau yn dibynnu ar faint y gymuned y maent yn ei chynrychioli a'u cyllideb. Mae cynnal a chadw seddau cyhoeddus a llochesi bws, manau cyhoeddus a chanolfannau cymuned ymhlith yr enghreifftiau o wasanaethau a ddarperir gan gynghorau tref a chymuned. Nid oes cynghorau tref na chymuned yn rhai rhannau o Gymru. Nid oes rhaid i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi adroddiadau ar eu perfformiad blynyddol onid oes ganddynt gyllideb o £200,000 neu fwy. Mae'n rhaid i gynghorau tref a chymuned a chanddynt gyllideb o £200,000 neu fwy gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n dangos cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion yng nghynllun llesiant lleol eu bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n rhaid i bob cyngor tref a chymuned gyhoeddi datganiad llywodraethu blynyddol a chyfrifon blynyddol.

## Mesur ac adrodd ar berfformiad y GIG

3.23 Llywodraeth Cymru sydd yn pennu'r cyfeiriad i'r GIG yng Nghymru o ran polisi, a'r fframwaith cyffredinol ar gyfer mesur ac adrodd ar berfformiad. Yn 2017, newidiodd Llywodraeth Cymru y modd y mae GIG Cymru yn mesur ac yn adrodd ar berfformiad. Bydd y GIG bellach yn adrodd ar berfformiad cyffredinol yn erbyn y 46 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol a nodau'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus.

<sup>53</sup> Am ragor o wybodaeth, gweler [tudalen we Llywodraeth Cymru ar berfformiad awdurdodau tân ac achub](#)

- 3.24 Mesurau perfformiad penodol yw'r rhain ar gyfer GIG Cymru. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Fframwaith Cyflawni'r GIG. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cyflawni'r GIG 2018-19 a'i Chanllawiau Adrodd ym mis Mawrth 2018<sup>54</sup>. Fframwaith 2018-19 yw'r cyntaf i gynnwys rhai canlyniadau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd yn unig, ond sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y Fframweithiau Cenedlaethol ar gyfer Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus a Chanlyniadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Fframwaith yn nodi mesurau cyflawni o fewn saith parth. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r mesurau yn Fframwaith Cyflawni'r GIG i ddwyn cyrff y GIG i gyfrif.
- 3.25 Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi trosolwg gyfun o berfformiad yn erbyn holl fesurau'r Fframwaith Cyflawni. Mae amryw o'r mesurau wedi'u cynnwys ar wefan ystadegau Llywodraeth Cymru: [statscymru.gov.uk](http://statscymru.gov.uk) Mae'r rhain yn cynnwys perfformiad allweddol yn erbyn targedau fel amseroedd aros ar gyfer triniaethau dewisol, ar gyfer triniaeth canser ac ar gyfer gofal brys.
- 3.26 Bydd cyrff unigol y GIG yn rhoi adroddiadau i'w byrddau ar berfformiad. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn ym mhapurau'r byrddau ac ar wefannau cyrff y GIG. Bydd pob corff o fewn y GIG yn llunio Adroddiad Blynyddol, sy'n nodi perfformiad y corff yn erbyn Fframwaith Cyflawni'r GIG, ochr yn ochr â'i gyfrifon. Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar wefannau'r cyrff GIG.

54 Llywodraeth Cymru, **Fframwaith Cyflawni'r GIG a Chanllawiau Adrodd 2018-19**, Mawrth 2018.



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in  
Welsh and English.

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau  
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)